

Pwyllgor: **Cabinet**

Dyddiad y cyfarfod: **Chwefror 23^{ain}, 2026**

Testun yr Adroddiad: **Adroddiad Alldro ar y Cynnig i Gynyddu Capasiti Pen y Cwm**

Deiliad y Portffolio: **Cyng. Sue Edmunds – Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd**

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan: **Joanne Watts – Pennaeth Adnoddau a Chynllunio**

Llwybr Adrodd yn ôl								
Tim Rheoli Cyfarwyddiaeth	Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol	Deiliad / Cadeirydd Portffolio	Pwyllgor Archwilio Llywodraethiant	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	Pwyllgor Craffu	Cabinet	Cyngor	Arall (noder)
						23.2.26		

1. **Pwrpas yr Adroddiad**

- 1.1 Diben yr adroddiad hwn ydy rhoi trosolwg manwl o'r ymatebion a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd gan Addysg ar gyfer y cynnig i ymestyn capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r ymgynghoriad:
- methodoleg.
 - proses; ac
 - ymatebion deilliannau, gan gynnwys prif themâu'n codi o'r ymatebion a dderbyniwyd
- 1.2 Ceisir penderfyniad gan y Cabinet yn unol â'r cynnig i symud ymlaen at Hysbysiad Statudol.

2. **Cwmpas a Chefndir**

2.1 **Proses a Methodoleg yr Ymgynghoriad**

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru – ail argraffiad (2018), yn nodi bod rhaid cyhoeddi cynigion ar gyfer yr elfennau canlynol o ad-drefnu ysgolion:

1. agor ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig).
 2. cau ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig).
 3. i wneud newid rheoledig i ysgol a gynhelir; ac,
 4. i newid categori ysgol a gynhelir.
- 2.1.1 Felly, rhaid i'r cynnig i gynyddu capasiti ym Mhen y Cwm fod yn destun ymgynghoriad ffurfiol. Mae'r Cyngor yn cynnig cynyddu capasiti disgyblion dros 10% - o 175 i 205 ym mis Medi 2026 ac ymhellach eto yn 2029/30 i 250 o ddisgyblion, ac mae hyn yn cael ei ddosbarthu fel newid rheoleiddiedig.
- 2.1.2 Cychwynnwyd a chynhaliwyd yr ymgynghoriad drwy ddogfen ymgynghori ffurfiol ac arolwg ar-lein cysylltiedig (cyfeiriwch at Atodiad 1 am y ddogfen ymgynghori), a oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol a nodir yn y Cod uchod. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd sefydlu barn a safbwyntiau

ymgyngoreion mewn perthynas â'r cynnig, er mwyn llywio proses gwneud penderfyniadau gwleidyddol y Cyngor, ynghyd â'r camau nesaf sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

2.1.3 Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad ymgynghori (o leiaf pythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol) sydd yn:

- crynhoi'r materion a godwyd gan ymgynghoreion.
- ymateb i'r rhain drwy egluro, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau ategol.
- gosod allan ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn; ac, yn
- ymateb i ymateb Estyn trwy egluro, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau ategol.

2.1.4 Dechreuodd yr ymgynghoriad ffurfiol ddydd Llun, 8fed Rhagfyr 2025, ar ôl cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ffurfiol ar wefan y Cyngor. Yna daeth y broses i ben ddydd Sul, 18fed Ionawr 2026 am hanner nos. Gofynnwyd i ymgynghoreion roi eu barn, eu safbwyntiau a'u hadborth drwy un neu fwy o'r dulliau canlynol:

- mynychu sesiwn rithwir neu wyneb yn wyneb a drefnwyd ymlaen llaw.
- cwblhau arolwg ar-lein; ac/neu,
- yn ysgrifenedig trwy gyfeiriad e-bost Ysgolion yr 21ain Ganrif.

2.1.5 Targedodd y Cyngor ymgynghoreion yn unol â chyfarwyddyd Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (cyfeiriwch at Atodiad 2 am restr gynhwysfawr o ymgynghoreion a gafodd y ddogfennaeth angenrheidiol). Dosbarthwyd llythyrau electronig i:

- holl ysgolion Blaenau Gwent i staff, rhieni a disgyblion.
- holl Gyrrff Llywodraethol trwy'r Gasanaeth Cyflawni Addysg; ac
- ymgynghoreion eraill fel y manylir yn **Atodiad 2**

2.1.6 Rhannwyd gwybodaeth ynghylch yr ymgynghoriad gyda:

- oddeutu 985 o Staff Addysgu a Staff nad ydyn nhw'n Addysgu (gan gynnwys holl staff yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm)
- 9,395 o Rieni dysgwyr
- 24 Ysgol
- 24 Corff Llywodraethol
- 55 trwy'r gymuned ehangach

Derbyniwyd i gyd cyfanswm o 128 o ymatebion ffurfiol trwy e-bost neu arolwg ac un sylw trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

3.0

Casgliadau

3.1

Trosolwg

3.1.1

Trosolwg o'r Ymgysylltiad Cyhoeddus

Ymgysylltodd y tîm Adnoddau a Chynllunio ag Undebau Llafur a chynnal sesiwn galw heibio yng Nghanolfan Dysgu Gweithredol Glynebwy ddydd Mercher, 10 Rhagfyr 2025, ar gyfer rhieni, staff, a'r gymuned ehangach. Mynychodd un ar ddeg o staff yr ysgol.

Nododd y ddogfen ymgynghori y gallai unigolion neu grwpiau a oedd yn dymuno trafod y cynnig gyda swyddogion drefnu sesiwn neu ofyn am alwad ffôn. Yn yr achos hwn, gofynnodd Pennaeth Pen y Cwm am gynnal dwy sesiwn bwrpasol ychwanegol gyda rhieni a dysgwyr. Cynhaliwyd y sesiynau hyn yn yr ysgol ddydd Mercher, 14 Ionawr 2026. Oll yn oll, mynychodd pedwar rhiant, a oedd hefyd yn Llywodraethwyr, a phedwar dysgwr a rhannu eu barn ar anghenion yr ysgol a'r cyfleusterau gofynnol.

Ni dderbyniwyd ymholiadau dros y ffôn yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac ni wnaed unrhyw geisiadau am gopiau printiedig o'r ddogfen ymgynghori.

I grynhoi, cynhaliodd Addysg bedair sesiwn gydag ymgynghoreion allweddol, cymerodd 19 o ymgynghoreion ran (gweler Atodiad 3 am fanylion pellach). Codwyd ac ymatebwyd i amrywiaeth o gwestiynau yn ystod y cyfarfodydd. Cyflwynwyd ymholiadau a safbwyntiau ychwanegol drwy'r arolwg ar-lein neu drwy e-bost.

Sylwch fod Atodiad 4 yn crynhoi ymatebion y dysgwyr ynghylch eu gofynion.

3.1.2 **Trosolwg o'r Ymatebion Ysgrifenedig**

Derbyniodd y Cyngor bedwar ymateb i gyd drwy e-bost, ac roedd gan dri ohonyn nhw bryderon ond nid oedden nhw wedi nodi a oedden nhw'n cefnogi'r cynnig ai peidio. Yr ymateb arall oedd gan Estyn yn cydnabod agweddau cadarnhaol y cynnig. Cyfeiriwch at **Atodiad 5** am y dair ohebiaeth a olygwyd ac **Atodiad 6** am Ymateb Estyn. Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau. Sylwch fod dau o'r e-byst a dderbyniwyd yn ddyblygiadau o ymatebion a gyflwynwyd eisoes drwy'r arolwg ar-lein.

3.2 **Crynodeb o'r Ymateb**

Derbyniodd y Cyngor gyfanswm o 128 o ymatebion i'r arolwg, a gellir gweld trosolwg ohonynt yn **Atodiad 7**. Fodd bynnag, mae'r data isod yn rhoi trosolwg o ganlyniadau'r ohebiaeth o ran lefel y gefnogaeth i'r cynnig:

- Yn llwyr gefnogi'r cynnig - 112 (87.5%)
- Ddim yn cefnogi'r cynnig - 11 (8.6%)
- 5 heb ddatgan barn, dim ond gwneud sylw - 5 (3.9%)

Rhoddodd cyfanswm o 94 o ymatebwyr (73%) sylwadau ychwanegol ar y cynnig. Dewisodd tri deg pedwar o'r 128 o gyfranogwyr (26.6%) beidio â gwneud sylwadau ac yn lle hynny dim ond nodi eu dewis dewisol. O'r sylwadau a gyflwynwyd (94), nid oedd 11 (11.7%) yn cefnogi'r cynnig, tra bod 83 (88.3%) wedi mynegi cefnogaeth.

Ceir manylion isod am yr ymatebwyr a gefnogodd, na chefnogodd, neu na roddodd unrhyw sylwadau, ynghyd â'u categorïau ymgynghoreion priodol.

Nifer yr ymatebwyr 128

- 22 **Athro**: 21 yn cefnogi'r cynnig, 1 ddim yn cefnogi'r cynnig
- 4 **Governors**: 3 ddim yn cefnogi'r cynnig; 1 ddim yn erbyn y cynnig
- 31 **o Rieni**: 29 yn cefnogi'r cynnig, 1 ddim yn cefnogi'r cynnig a dim ymateb gan 1

- 26 o **Drigolion lleol**: 25 yn llwyr gefnogi'r cynnig; 1 dim ymateb
- 18 o **Staff nad ydyn nhw'n Dysgu**: 14 yn llwyr gefnogi'r cynnig; 3 ddim yn cefnogi'r cynnig ac 1 dim ymateb
- 27 **Arall**: 23 yn llwyr gefnogi'r cynnig; 3 ddim yn cefnogi'r cynnig; 1 dim ymateb

O'r ymatebion trwy'r arolwg o 34/128 na wnaeth sylw:

- 33 yn cefnogi'r cynnig
- 1 heb wneud sylw naill ffordd na'r llall

Ymgysylltu trwy'r Cyfryngau Cymdeithasol

3.2.1

Llwyddodd y tîm Cyfathrebu Corfforaethol i sefydlu rhyngweithiadau a chysylltiadau cyfryngau cymdeithasol gyda phostiadau ymgynghori; mae crynodeb ohonyn nhw wedi'i fanylu isod (am ragor o wybodaeth cyfeiriwch at **Atodiad 8**):

Gwnaed cyfanswm o 6 postiad Cyngor (allanol) trwy Facebook ac Instagram, a datgelodd asesiad ohonyn nhw:

- Cyrraedd 12,000 trwy Facebook
 - 9^{fed} Ionawr 2026 - 6,891 - 11 rhaniad - 143 clic
 - 16^{eg} Ionawr 2026 3,273 - 4 rhaniad - 46 clic
- Instagram
 - 9^{fed} Ionawr 2026 - 92 argraff
 - 16^{eg} Ionawr 2026 - 63 argraff

Trwy Instagram Cymraeg

- 9^{fed} Ionawr 2026 - 5 argraff
- 16^{eg} Ionawr 2026 - 10 argraff

Dadansoddiad Thematig

3.3

Defnyddiodd tîm Adnoddau Addysg a Chynllunio fethodoleg dadansoddi thematig helaeth wrth asesu barn yr ymgynghoreion. Mae'r dull hwn yn un o'r rhai mwyaf cyffredin a ddefnyddir mewn ymchwil ansoddol ac fe'i defnyddir i nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg drwy gydol set ddata, h.y. themâu allweddol fel iaith. Mae'r themâu a'r patrymau sy'n dod i'r amlwg yn bwysig i'r cwestiynau a ofynnir, wrth amlygu effaith y cynnig, a fydd yn ei dro yn cefnogi'r Cabinet i wneud penderfyniad gwybodus ar sut i symud ymlaen. Mae'r broses hon yn ddeongliadol; fodd bynnag, mae risgiau dehongli yn cael eu lliniaru i raddau helaeth trwy gyflwyno'r holl ymatebion a dderbynnir (cyfeiriwch at **Atodiadau 5, 6 a 7** am drosolwg o'r holl sylwadau, safbwyntiau ac ymatebion). Yn **Atodiad 7**, mae'r sylwadau gan ymatebwyr sy'n cefnogi'r cynnig a'r rhai nad ydyn nhw'n cefnogi'r cynnig wedi'u gwahanu; fodd bynnag, mae'r holl sylwadau wedi'u hymgorffori yn y dadansoddiad cyffredinol a gyflwynir yn **Atodiad 9**.

3.3.1

Mae manylion y themâu sylfaenol yn codi o ddadansoddi'r ymatebion, ynghyd ag amllder pob un o'r themâu uchod i' cael yn **Atodiad 9**. Yn gyfangwbl, codwyd 31 o themâu, gyda'r 6 uchaf yn nhermau amllder fel a ganlyn:

- Dim mwy o le mewn ysgol presennol – 5 gwaith
- Fe fyddai'r cynnig y cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr a fydd yn gwneud y ddarpariaeth yn bwrpasol- 37 gwaith

- Anghenion dysgwyr ddim yn cael eu diwallu - 34 gwaith
- Yr angen am adeiladau/ysgol/estyniad newydd - 27 gwaith
- Staff wedi'u hymestyn i eithaf eu gallu - 27 gwaith
- A ydy'r cynlluniau ymgynghori yn ddigon mawr? - 21 gwaith

3.3.2 Mae'r themâu a nodwyd yn adlewyrchu barn yr ymgynghoreion ar yr ystyriaethau a'r agweddau pwysicaf ar y cynnig yr oedden nhw'n teimlo y dylai'r Cyngor eu bwrw ymlaen â nhw. Fel y nodwyd uchod, sylw nifer o ymatebwyr oedd nad oes lle ychwanegol o fewn yr adeiladau presennol i gynyddu'r capasiti (50). I'r gwrthwyneb, tynnodd yr ymgynghoreion sylw hefyd at elfennau cadarnhaol y cynnig, gan gynnwys manteision gwneud y ddarpariaeth yn fwy pwrpasol. (37).

3.4 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ymgynghoridau ynghylch trefnu ysgolion wedi tueddu i dderbyn canran uwch o ymatebion negyddol na rhai cadarnhaol. Fodd bynnag, mae hi'n bwysig pwysleisio i'r ymgynghoriad hwn greu lefel uwch o gefnogaeth na her.

3.5 Ymatebion Plant a Phobl Ifanc

Cymerodd Ysgol Arbennig Pen y Cwm ran yn y broses ymgynghori, (**Atodiad 4**) er mwyn cefnogi ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, ni threfnwyd unrhyw gyfarfodydd gyda'r Fforwm Ieuenctid nag Uwch-gyngor yr Ysgol gan nad oedd unrhyw gyfleoedd i gyflwyno i'r grwpiau.

3.5.1 Ymateb ESTYN

Derbyniawyd ymateb ffurfiol Estyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn seiliedig ar y ddogfen ymgynghori. Ceir yr ymateb llawn yn **Atodiad 6** (ymateb rhif 3).

Casgliad Estyn oedd hyn:

'Mae'r ddogfen yn amlinellu ymateb Estyn i gynnig Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i ehangu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 175 i 205 o leoedd erbyn mis Medi 2026, gyda 45 o leoedd ychwanegol erbyn 2030/31, gan gyrraedd cyfanswm o 250 o ddysgwyr. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys adleoli darpariaeth ôl-16 i gyfleuster parhaol yn Vision House, Glynebwy, gan fynd i'r afael â'r galw cynyddol am leoedd i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn y Fwrdeistref.

Trosolwg o'r Cynnig: Cynyddu capasiti'r ysgol i fynd i'r afael â gordanysgrefio a rhestrau aros. Adleoli darpariaeth ôl-16 i safle parhaol yn Vision House, Glynebwy.

Rhesymeg a Manteision: Yn mynd i'r afael â phroblemau digonolrwydd ar gyfer lleoliadau ADY yn y Fwrdeistref, yn gwella safonau addysgol, ansawdd addysgu ac amgylcheddau dysgu, cynaliadwyedd ariannol, yn darparu cyfleusterau gwell i ddisgyblion ag ADY, gan gynnwys ystafelloedd arbenigol a mannau ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Risgiau a Lliniaru: Mae'r risgiau a nodwyd yn cynnwys heriau lleoli ac ariannol, pryderon rhanddeiliaid, ac effeithiau amgylcheddol. Mae strategaethau lliniaru wedi'u hamlinellu ond nid oes digon o fanylion am opsiynau amgen os na chymeradwyir cyllid.

Effaith Addysgol: Effaith gadarnhaol ar anabledd fel nodwedd warchodedig. Manteision i deuluoedd â phlant sydd angen addysg ADY o fewn y Fwrdeistref. Diffyg cynlluniau manwl ar gyfer gwella profiadau dysgu a lles disgyblion ADY.

Effaith ar y Gymuned a'r Iaith: Effaith gadarnhaol ar iechyd a lles disgyblion. Dim effaith negyddol ar addysg cyfrwng Cymraeg na'r iaith Gymraeg.

Ystyriaethau Ariannol: Costau cyfalaf lleiaf posibl ar gyfer ehangu'r safle presennol. Costau sylweddol (rhwng £8m a £15m) ar gyfer y cyfleuster ôl-16 newydd, yn amodol ar gymeradwyaeth y cyngor.

Staffio a Phontio: Dim effaith ar staff presennol; cyfleoedd newydd posibl ar gyfer staff ôl-16. Cymorth AD ar gyfer penodiadau newydd, ond dim cynlluniau manwl ar gyfer recriwtio staff ag arbenigedd ADY.

Ar y cyfan, mae Estyn yn gweld bod y cynnig yn rhesymol ac yn debygol o wella'r ddarpariaeth ADY, ond mae'n nodi meysydd lle mae angen rhagor o fanylion, yn enwedig o ran manteision addysgol, trefniadau pontio, a dewisiadau amgen ariannu.

3.5.2 Ymateb y Cyngor i ESTYN

Diolch i chi am ddarparu gwerthusiad manwl a chynhwysfawr o gynnig Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i ymestyn y capasiti ymhellach yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi'r dadansoddiad trylwyr a'r adborth adeiladol a ddarparwyd. Isod mae cydnabyddiaeth o'r pwyntiau allweddol a godwyd:

Trosolwg o'r Cynnig: Mae Addysg yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am leoliadau ADY o fewn y Fwrdeistref Sirol ac yn cytuno bod yr ehangu a'r adleoli arfaethedig o ddarpariaeth ôl-16 dros dro yn gamau angenrheidiol i ddiwallu'r galw hwn yn effeithiol.

Rhesymeg a Manteision: Mae'r Cyngor yn falch bod Estyn yn cydnabod y rhesymeg strategol y tu ôl i'r cynnig a'i botensial i wella safonau addysgol, ansawdd addysgu, a chynaliadwyedd ariannol. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyfleusterau a'r adnoddau ychwanegol wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr ag ADY.

Risgiau a Lliniaru: Ar ôl cydnabod y risgiau a nodwyd yn yr ymateb; bydd gwaith yn parhau i gael ei wneud i gryfhau ein strategaethau lliniaru. Yn benodol, bydd y Tîm Adnoddau a Chynllunio yn gweithio'n agos gyda Chyllid i ddatblygu cynlluniau wrth gefn wrth fynd i'r afael â heriau ariannu posibl a sicrhau ymgysylltiad rhanddeiliaid drwy gydol y broses.

Effaith Addysgol: Mae Addysg yn gwerthfawrogi cydnabyddiaeth Estyn o'r effaith gadarnhaol ar anabledd fel nodwedd warchodedig a'r manteision i deuluoedd o fewn y Fwrdeistref. Bydd rhagor o fanylion am sut y bydd y cynnig yn gwella profiadau dysgu a lles disgyblion ADY, gan gynnwys strategaethau penodol i gefnogi eu trosglwyddiad i ddarpariaeth ôl-16, yn cael eu datblygu.

Effaith ar y Gymuned a'r Iaith: Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles y dysgwyr ar draws ystad yr ysgolion, nid yn unig Ysgolion Arbennig. Mae pob Ysgol ym Mlaenau Gwent yn ymwneud â chyfrwng Cymraeg ar lefelau dysgwyr. Siaredir Cymraeg yn yr Ysgolion Arbennig ac mae'n cefnogi Cynllun Strategol 10

Mlynedd y Gymraeg mewn Addysg a Deddf yr Iaith Gymraeg (2025) a lle bo modd sicrhau cyd-fynd â'r fframweithiau hyn.

Ystyriaethau Ariannol: mae'r Tîm Adnoddau Addysg a Chynllunio yn cydnabod y pryderon ynghylch y costau cyfalaf sylweddol ar gyfer cyfleuster/estyniad ôl-16 newydd. Bydd y cynnig hwn ar gyfer cyfleuster newydd yn cael ei gyflwyno yn unol â Chyllid Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu lle mae opsiynau'n cael eu gwerthuso ar hyn o bryd.

Staffio a Phontio: Bydd tîm Datblygu Sefydliadol y Cyngor yn gweithio gyda'r Pennaeth i ddatblygu cynllun manwl ar gyfer recriwtio staff ag arbenigedd ADY perthnasol i gefnogi'r capasiti estynedig a'r ddarpariaeth ôl-16 newydd. Yn ogystal, byddwn yn gwella'r trefniadau pontio ar gyfer disgyblion ôl-16 i sicrhau bod eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu'n effeithiol.

I gloi, mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi adborth Estyn a bydd yn ystyried yr argymhellion i fireinio a chryfhau'r cynnig lle bo angen. Nod Blaenau Gwent ydy darparu addysg a gofal o ansawdd uchel i ddysgwyr ag ADY, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu o fewn y Fwrdeistref Sirol a gwella eu profiadau dysgu a'u lles cyffredinol. Diolch am eich cefnogaeth a'ch arweiniad parhaus.

3.6

Casgliad Ymgynghorol

I gloi, mae'r broses ymgynghori wedi dangos cefnogaeth eang i'r cynnig, gyda 112 allan o 128 o ymatebwyr yn nodi eu cytundeb. Mae'r ymgynghoreion a'r Cyngor yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â chynnydd mewn capasiti disgyblion a'r gofyniad am le ychwanegol yn yr adeilad i gefnogi dysgu arbenigol, gan sicrhau nad ydy ansawdd y ddarpariaeth arbenigol yn cael ei gyfaddawdu drwyddi draw.

Mae'r tîm Adnoddau a Chynllunio (Addysg) yn parhau i fod wedi ymrwymo i gyflawni'r cynnig, ac mae Ysgol Arbennig Pen y Cwm yn gefnogol mewn egwyddor, yn amodol ar sicrhau lle ychwanegol yn yr adeilad i ddiwallu anghenion dysgwyr. Bydd y dull dau gam arfaethedig yn cefnogi rheolaeth effeithiol o'r pwysau presennol gan alluogi'r Cyngor, yr ysgol, a rhanddeiliaid allweddol i gydweithio i ddatblygu ateb hirdymor effeithiol a chynaliadwy.

Mae Atodiad 10 yn darparu ymatebion y Cyngor i'r Dadansoddiad Thematig.

3.7

Opsiynau i'w Hargymell

Mae 2 opsiwn yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad, fel a ganlyn:

- **Opsiwn 1** – Cabinet yn ystyried a derbyn yr adroddiad alldro, dogfennau cysylltiedig a chmau i'w cymryd, gan gynnwys symud ymlaen at Hysbysiad Statudol.
- **Opsiwn 2** – Cabinet yn darparu sylwadau ynghylch â'r gwelliannau y gellir eu gwneud mewn perthynas â'r camau gweithredu arfaethedig, gan ystyried Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a'r amserlen sefydledig.

4.0

Tystiolaeth ynghylch sut mae'r pwnc yma'n cefnogi cyrhaeddiad y Cynllun Corfforaethol / Cyfrifoldebau Statudol / Cynllun Lles Blaenau Gwent

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018), mae gofyniad statudol i Gynghorau ymgynghori ar gynigion ad-drefnu ysgolion a'u cyhoeddi. Mae addysg yn flaenoriaeth strategol o fewn y Cynllun Corfforaethol. Er mwyn galluogi pobl i 'Wneud y mwyaf o ddysgu a sgiliau i bawb i greu Blaenau Gwent ffyniannus, ffyniannus a gwydn'.

Yn ogystal, byddai'r cynnig yn cefnogi gweledigaeth y Gyfarwyddiaeth: *'Grymuso ein cymunedau i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, moesegol wybodus, gydol oes sy'n byw bywydau llawn ac iach'*. Mae'r cynnig hwn hefyd yn adlewyrchu Egwyddorion Marmot trwy fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd trwy addysg. Mae addysg o ansawdd uchel, hygyrch yn sbardun allweddol wrth leihau anghydraddoldebau iechyd a 'Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn'.

5.0

Goblygiadau yn erbyn pob Opsiwn

5.1

Effaith ar Gyllideb (effaith byrdymor a hirdymor)

Roedd costau cyfalaf Rhan 1 y cynnig, sef creu'r ddarpariaeth dros dro Ôl-16 yn Uned 4 Safle'r Wyl, tua £150,000 a chafodd y costau eu talu o grant cyfalaf ADY Llywodraeth Cymru. Mae goblygiadau ariannol cyfalaf yn gysylltiedig â Rhan 2 y cynnig hwn i'r Cyngor, a fydd yn amodol ar gymeradwyaeth Rhaglen Gyfalaf ac achos busnes llawn gan Lywodraeth Cymru, fel rhan o'r Rhaglen Dreigl Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Amcangyfrifir bod hyn rhwng £3m – £15m yn dibynnu ar y dewis a ffefrir yn cael ei benderfynu yn dilyn asesiad opsiynau llawn.

Mae Ysgol Arbennig Pen Y Cwm yn cael ei hariannu yn unol â pholisi Ariannu Teg Cyngor Blaenau Gwent. Fel pob ysgol arall yn yr ardal, mae ei chyllid yn cael ei bennu gan nifer y disgyblion a maint safle'r ysgol, fodd bynnag mae hefyd yn denu cyllid mewn perthynas â'i chategori ysgol arbennig.

Mae rhagweld effaith ariannol cynyddu capasiti yn gywir yn heriol. I ddangos hyn, mae'r gofynion ariannu yn seiliedig ar nifer y disgyblion, y dyraniad presennol ar gyfer 175 o ddisgyblion yn 2025/26 tua £4.45 miliwn, sy'n cynnwys Uned Disgyblion Pwysol yn ôl Oedran (AWPU), ffactorau eraill a chyllid penodol i gategoriâu. Wrth i nifer y disgyblion gynyddu yn unol â'r ehangu arfaethedig, bydd cynnydd cyfatebol mewn costau adeiladau a staffio gan arwain at bwysau cost i'r Cyngor. Bydd yr asesiad achos busnes / opsiynau yn manylu ar effaith bosibl pob senario ar y Cyngor a lleoliadau ysgol eraill. Bydd angen archwilio lliniaru costau i leihau'r effaith ariannol fel rhan o'r asesiad.

Nid oedd costau cludiant sy'n gysylltiedig â Rhan 1 yn cynnwys unrhyw gost ychwanegol i'r ysgol yn y flwyddyn academaidd 2024/25 gan fod disgyblion yn cael eu gollwng yn y ddau safle gan ddefnyddio'r trefniadau presennol. Fodd bynnag, ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26, mae angen dau fws ychwanegol i ddarparu ar gyfer nifer cynyddol o ddisgyblion, gyda chostau blynyddol rhagweledig yn gyfanswm o £76,950.

Mae'r costau hyn wedi'u hamsugno yng nghyllideb cludiant o'r Cartref i'r Ysgol. Er hyn, mae ateb lleol fel lleoliad ym Mhen Y Cwm yn cynnig gwell gwerth am arian o'i gymharu â'r costau cludiant sy'n gysylltiedig â darpariaeth y tu allan i'r sir.

5.2 ***Risg gan gynnwys Camau Lliniaru***

Os na chaiff y cynnig ei symud ymlaen, mae risg sylweddol o ran lleoliadau dysgwyr a goblygiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys heriau wrth sicrhau darpariaeth ADY briodol o fewn a thu allan i'r sir, gan arwain at gostau uwch ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r sir a Chludiant Cartref i'r Ysgol ychwanegol.

I'r gwrthwyneb, mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynnig yn ymwneud â chynnydd yn y fformiwla ariannu ar gyfer Ysgol Arbennig Pen-y-Cwm a'r effaith bosibl ar leoliadau addysgol eraill. Fodd bynnag, mae'r risgiau hyn yn cael eu gorbwyso gan y canlyniadau ariannol a gweithredol sylweddol o beidio â symud ymlaen.

5.3 ***Cyfreithiol***

Ceisiwyd cyngor cyfreithiol mewn perthynas â'r ddogfen ymgynghori.

5.4 ***Adnoddau Dynol***

Bydd y cynnig i gynyddu nifer y disgyblion yn ei gwneud yn ofynnol i Gorff Llywodraethol Ysgol Pen y Cwm gynllunio'n rhagweithiol ar gyfer gofynion y gweithlu yn y dyfodol wrth baratoi ar gyfer ehangu'r capasiti. Bydd Datblygu Sefydliadol yn rhoi cyngor, cefnogaeth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethol drwy gydol y broses o gynllunio'r gweithlu, gan gynnwys unrhyw weithgarwch recriwtio canlyniadol.

5.5 ***Iechyd a Diogelwch***

Ni ragwelir unrhyw effaith ar lechyd a Diogelwch. Cynhelir adolygiadau cyfnodol gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch, ac ymdrinnir ag unrhyw bryderon a nodwyd yn unol â hynny. Bydd darparu capasiti adeilad ychwanegol yn lleihau ac yn lliniaru problemau lechyd a Diogelwch posibl yn sylweddol trwy liniaru gorlenwi a sicrhau bod lleoedd yn parhau i fod yn addas ac yn ddiogel i ddysgwyr a staff.

6.0 ***Tystiolaeth Ategol***

6.1 ***Gwybodaeth a Data Perfformiad***

Cyfeiriwch at y ddogfen ymgynghori (**Atodiad 1**) mewn perthynas â'r cynnig.

6.2 ***Deiliant disgwylledig i'r cyhoedd***

Gall y cyhoedd ddisgwyl proses ymgynghori deg a chyfiawn, sy'n cydymffurfio'n llawn â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018).

6.3 ***Ymgysylltu (ymgynghori, ymgysylltu, cyfranogi)***

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ffocws allweddol i bob cynnig trefniadaeth ysgolion. Bydd y cynnig yn destun ymgynghoriad yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018), a fydd wedyn yn cael ei ddefnyddio i lywio prosesau gwneud penderfyniadau wrth symud ymlaen, h.y. symud i Gyfnod Hysbysiad Statudol.

- 6.4 ***Meddwl ar gyfer y Tymor Hir (cynllunio ymlaen llaw)***
Mae'r ymgynghoriad yn manylu ar gynnig sy'n edrych i greu lleoedd ychwanegol yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm yn unol â'r galw lleol am leoedd ar gyfer datblygiad hirdymor a chynaliadwyedd y system addysg ym Mlaenau Gwent. Bydd angen ystyriaeth bellach, h.y. ehangu/ymestyn o ran lleoedd adeiladu ac offer arbenigol, i ddiwallu'r holl alw, bydd hyn yn destun gwerthusiad opsiynau ac achos busnes llawn i Lywodraeth Cymru, bydd unrhyw ddatblygiad yn ystyried y sylwadau o'r ymgynghoriad ynghylch lleoedd dysgu ychwanegol.
- 6.5 ***Ffocws ataliol***
Mae'r cynnig yn ceisio mynd i'r afael â materion cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â thwf a datblygiad lleoliadau Ysgolion Arbennig yn y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.
- 6.6 ***Cywedithredu / gweithio mewn partneriaeth***
Mae'r ymgynghoriad, ynghyd â datblygiad y cynnig, wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r Tîm Cynhwysiant, Penaethiaid Ysgolion, Cyllid, a Gwasanaethau Cymdogaeth.
- 6.7 ***Integreiddio (ar draws meysydd gwasanaeth)***
Mae'r cynnig yn ceisio sicrhau integreiddio i ddisgyblion newydd a phresennol mewn lleoliadau ysgolion arbennig gan gefnogi twf a chynaliadwyedd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgwyr yn y dyfodol.
- 6.8 ***Dadgarboneiddio a Lleihau Allyriadau Carbon***
Trwy gael darpariaeth yn lleol bydd yn mynd i'r afael â'r Agenda Werdd gan leihau allyriadau carbon i ddysgwyr sy'n teithio'n ormodol ar gyfer eu hanghenion addysgol.
- 6.9 ***Asesiad Effaith Integredig (AEI) (Bydd angen Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau ar gyfer pob penderfyniad, adolygiad polisi neu weithredu polisi) I nodi nad oes angen cwblhau templed sgrinio mwyach,***
Mae'r Tîm Adnoddau a Chynllunio wedi cwblhau AEI sydd ar gael o hyd trwy ddolen y dudalen we i'r ymgynghoriad hwn.
7. **Trefniadau Monitro**
7.1 Bydd monitro helaeth gan y tîm Adnoddau Addysg a Chynllunio yn unol â'r prosesau ymgynghori, yr ymatebion a'r canlyniadau a fyddai'n cael eu hateb, eu dadansoddi a'u cymryd drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor..

Dogfennau Cefndir / Dolenni-cyswllt Electronig

Atodiad 1 Dogfen Ymgynghori	 PYC Consultation document Fv 1.12.25 f
Atodiad 2 Rhestr Ymgynghoreion	 Appendix 2 Consultee List.docx
Atodiad 3 Rhestr Sesiynau (gan gynnwys nifer y cyfranogwyr)	 Appexdix 3 - Cymraeg.docx
Atodiad 4 Ymatebion Dysgwyr ar eu hanghenion	 Appendix 4 Session held at Pen y Cwm scl
Atodiad 5 Log Gohebiaeth wedi'i Olygu	 Appendix 5 redacted responses.cym.docx
Atodiad 6 Ymateb Estyn	 Estyn Repsonse to Pen y Cwm Special Sc
Atodiad 7 Trosolwg o'r Arolwg	 Appendix 7 PYC analysis via Survey.cyr
Atodiad 8 Sylwadau a Barn a Gasglwyd trwy'r Cyfryngau Cymdeithasol	 Appendix 8 Social Media posts.docx
Atodiad 9 Dadansoddiad Thematig	 Appendix 9 - Pen y Cwm Consultation The
Atodiad 10 Dadansoddiad Thematig a ymatebion y cyngor	 Appendix 10 thematic analysis and Council A